

General Optical Council



# Amdanom ni

---

Cyngor Optegol Cyffredinol

---



## Am y llyfryn hwn

---

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyh chi amdanom ni (y Cyngor Optegol Cyffredinol). Mae'n dweud wrthyh chi beth rydym yn ei wneud, ac yn esbonio ein gwasanaethau.

---

## Amdanom ni

---

**Rydym yn rheoleiddio optegwyr, myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn optegwyr a busnesau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd mae rhyw 23,500 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optometreg a busnesau optegol ar ein cofrestrï. Mae ein pwerau yn dod o Ddeddf Seneddol o'r enw'r Ddeddf Optegwyr.**

**Optometrydd** yw'r person sy'n profi'ch golwg. Maen nhw hefyd yn gallu ffitio a chyflenwi sbectol neu lensys cyffwrdd.

**Optegydd dosbarthu** yw'r person sy'n ffitio ac yn cyflenwi'ch sbectol neu eich lensys cyffwrdd.

Mae'r term '**optegydd**' yn cael ei ddefnyddio'n aml i gyfeirio at optometryddion ac optegwyr dosbarthu.

Mae unigolion sydd wedi cofrestru gyda ni yn cael eu disgrifio'n aml gan ddefnyddio'r term '**optegwyr cofrestredig**'.

Rydym yn defnyddio'r ddau derm hyn yn y llyfryn yma i'w gwneud yn haws i chi

**Mae offthalmolegwyr ac ymarferwyr meddygol offthalmig (OMPs)** yn feddygon meddygol sy'n cael eu caniatáu i brofi'ch llygaid hefyd, a ffitio a chyflenwi sbectol a lensys cyffwrdd. Nid ydym yn cofrestru offthalmolegwyr nac ymarferwyr meddygol offthalmig, gan fod y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) yn cofrestru'r mathau hyn o feddygon.

---

## Beth yw rheoleiddio?

---

Mae rheoleiddwyr yn amddiffyn y cyhoedd drwy gyfyngu pwy sy'n gallu ymarfer proffesiwn. Rydym ni'n un o naw rheoleidiwr gofal iechyd. Rydym yn amddiffyn y cyhoedd drwy reoleiddio optegwyr a busnesau optegol unigol i wneud yn si r eu bod nhw'n bodloni'r safonau ymddygiad, addysg a pherfformiad gofynnol.

Rydym yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac mae ein gwaith yn cael ei adolygu gan gorff ar wahân o'r enw'r Cyngor dros Ragoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE).

## Sut rydym yn gweithio

---

Mae gennym ni 12 aelod Cyngor: mae chwech yn optegwyr cofrestredig a chwech yn aelodau 'lleyg' (heb hyfforddi fel optegwyr). Nhw sy'n goruchwyllo gwaith y corff cyfan ac yn gyfrifol am wneud penderfyniadau pwysig.

Mae saith pwyllgor sy'n helpu'r Cyngor ac mae pob Pwyllgor yn canolbwyntio ar un maes o'n gwaith. Staff yn ein swyddfeydd yn Llundain sy'n rhoi penderfyniadau mawr y Cyngor ar waith.

## Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

---

Ein cenhadaeth yw amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo safonau uchel o addysg, ymddygiad a pherfformiad ymhlith optegwyr.

**Mae ein gwaith wedi ei adeiladu ar chwe phrif werth. Ein nod yw i'n holl waith ni fod:**

- » yn gymesur - gan dargedu'r materion sy'n peri'r risg mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd
- » yn atebol – gan gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid
- » yn gyson – gan weithio gydag eraill i wneud yn si r bod ein gwaith yn deg
- » yn dryloyw - gan esbonio ein penderfyniadau lle bynnag y bo'n bosibl
- » yn bwrpasol – gan ganolbwyntio'n hymdrechion lle mae'r budd mwyaf i'r cyhoedd; ac
- » wedi ei drefnu'n dda – gan gynnig gwerth am arian, gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith

# Beth ydych chi'n ei wneud?

---

## Rydym yn amddiffyn y cyhoedd drwy wneud y canlynol:

### 1. PENNU SAFONAU AR GYFER ADDYSG, HYFFORDDIANT, PERFFORMIAD AC YMDDYGIAD OPTEGOL

Rhaid i optegwyr sy'n dymuno cofrestru gyda ni fodloni ein safonau o ran gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad. Mae'r rhain yn cael eu nodi mewn dwy ddogfen, 'Standards in competence' (gwybodaeth a sgiliau) a 'Standards in conduct' (ymddygiad). Rhaid i fusnesau optegol sy'n dymuno cofrestru gyda ni fodloni ein safonau ymddygiad, a welir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer busnesau optegol. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan, **[www.optical.org](http://www.optical.org)**

### 2. CYMERADWYO'R CYMWYSTERAU SY'N ARWAIN AT GOFRESTRU

Mae ar optegwyr angen hyfforddiant i gyflwyno gofal llygaid o safon dda. Rydym yn asesu ac yn cymeradwyo'r addysg sy'n cael ei rhoi i fyfyrwr optometreg ac opteg ddosbarthu yn y DU i sicrhau bod yr hyfforddiant yn bodloni ein safonau ni.

Ni sy'n penderfynu cynnwys pob cwrs a chymhwyster sy'n arwain at gofrestrriad llawn gyda ni. Rydym yn cynnal ymweliadau sicrhau ansawdd i gadarnhau bod cyrff addysg ac arholi yn cadw at ein safonau ni.

### 3. CYHOEDDI COFRESTR O WEITHWYR PROFFESIYNOL, MYFYRWYR A BUSNESAU GOFAL LLYGAID YN Y DU

Rhaid i optometryddion ac optegwyr dosbarthu fod wedi cofrestru gyda ni i ymarfer yn y DU. Rydym yn cyhoeddi cofrestr i o'r holl optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optometreg a busnesau optegol sy'n gymwys ac yn 'addas i ymarfer', hyfforddi neu gynnal busnes.

### 4. YMCHWILIO I BRYDERON AM UNRHYW UN SYDD WEDI COFRESTRU GYDA NI A GWEITHREDU

Rydym yn gallu cymryd camau os bydd 'addasrwydd i ymarfer' rhywun sydd wedi cofrestru yn cael ei amharu (os oes effaith negyddol arno) o ganlyniad i ieched gwael, ymddygiad neu berfformiad. Y Senedd sy'n rhoi'r pwerau hyn i ni.

## Beth yw addasrwydd i ymarfer?

---

Os bydd optegydd yn cael ei ddisgrifio'n 'addas i ymarfer', mae'n golygu ei fod yn bodloni'r safonau iechyd, cymeriad, gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad sy'n angenrheidiol iddo wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Pa wasanaethau ydym ni'n eu darparu?

---

**Rydym yn gallu eich helpu i wneud y canlynol:**

### 1. GWIRIO BOD OPTEGYDD, MYFYRIWR, NEU FUSNES OPTEGOL WEDI EI GOFRESTRU

Cewch chwilio yn y cofrestru i wirio bod eich optegydd wedi ei gofrestru gyda ni. Hefyd cewch ddefnyddio'r cofrestru i ddod o hyd i optegydd yn eich ardal chi. Mae'r cofrestru'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn **www.optical.org** ac maen nhw'n rhad ac am ddim i'w defnyddio. Os na allwch chi ddefnyddio'r rhyngrwyd, cewch chi ffonio'n tîm cofrestru ar 020 7580 3898 (opsiwn 1). Byddan nhw'n gallu dweud wrthy'ch chi a ydy optegydd wedi ei gofrestru gyda ni.

### 2. CWYNO AM OPTEGYDD, MYFYRIWR, NEU FUSNES OPTEGOL

Dylech chi ddweud wrthym ni os credwch efallai nad yw un o'n hoptegwyr cofrestredig yn addas i ymarfer. Gall hyn fod oherwydd:

- » perfformiad proffesiynol gwael, fel methu â sylwi ar arwyddion clefyd llygaid
- » problemau iechyd corfforol neu feddyliol sy'n effeithio ar eu gwaith
- » ymddygiad amhriodol, fel trais neu ymosodiad rhywiol
- » bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau wrth eu gwaith
- » twyll neu anonestrwydd; neu
- » gollfarn droseddol neu rybudd.

Os na fydd optegydd cofrestredig yn bodloni ein safonau ac yn methu â gwneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol, gallwn ni ei atal rhag gweithio yn y DU (sy'n cael ei alw'n aml ei 'ddileu'). Hefyd gallwn ni gyfyngu'r math o waith mae'n cael ei ganiatáu i'w wneud.

## Sut mae cwyno?

---

Os ydych chi'n dymuno cwyno am un o'n hoptegwyr cofrestredig, cewch ddysgu sut mae gwneud hyn yn ein llyfryn 'How to complain about an optician'. Mae hwn ar gael yn **www.optical.org** neu drwy ffonio 020 7580 3898 (opsiwn 5).

## Cysylltu â ni

---

### Ysgrifennwch at:

General Optical Council  
41 Harley Street  
London  
W1G 8DJ

Ffôn: 020 7580 3898

Gwefan: [www.optical.org](http://www.optical.org)

Ffacs: 020 7436 3525

E-bost: [goc@optical.org](mailto:goc@optical.org)

## Cysylltiadau defnyddiol eraill

---

### Optical Consumer Complaints Service

Am gymorth gyda materion defnyddwyr, fel cael eich arian yn ôl am sbectol ddiffygiol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) ar 0844 800 5071 neu yn **www.opticalcomplaints.co.uk**

### Awdurdod Safonau Hysbysebu

Gallwch chi gwyno am hysbysebu anghywir neu gamarweiniol i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) ar 020 7492 2222 neu yn **www.asa.org.uk**

### Cyngor ar Bopeth

Os nad ydych chi'n siŵr i bwy i gwyno, neu os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth ar 020 7833 2181 neu yn

**www.citizensadvice.org.uk**

---

Fformatau gwahanol

Gallwch chi gael y llyfryn hwn yn Saesneg drwy fynd i [www.optical.org](http://www.optical.org)

---